

Llanw Llyn



RHIF 273

IONAWR 2001

35c

Pryderon wedi'r Tirlithriadau



Rhan o'r lôn gyferbyniol a Sarn y Plas, Rhiw lle y llithrodd y tir gan fynd â choed i'w ganlyn (Llun: Dewi Wyn)

Cafwyd dechrau digalon iawn i'r flwyddyn newydd pan laddwyd Mrs Shirley Race yn sgil y tirlithriad ar Lôn y Traeth, Nefyn. Yn dilyn misoedd o law cafwyd amryw o dirlithriadau mewn ardaloedd eraill ar hyd arfordir Llyn. Ni chafwyd, yn ffodus iawn, drychineb tebyg i'r un yn Nefyn, ond gall y gost ar sawl cyfrif fod yn ddrud iawn i nifer o ardaloedd.

Bydd cau Lôn y Traeth yn peri cryn anhwylostod i bysgotwyr Nefyn. Er y gallant fynd at eu cychod, bydd yn rhaid iddynt fynd i draeth Morfa Nefyn er mwyn dadlwytho'u helfeydd. Pryder arall gan ardalwyr Nefyn ydi na fydd y lôn yn ail-agor cyn yr haf ac y bydd hynny'n effeithio ar y diwydiant ymwelwyr.

Gall fod yr oblygiadau yn fwy pellgyrhaeddol byth i drigolion y Rhiw fydd yn gorfod mynd filltiroedd o'u ffordd am beth amser i ddod os ydynt am deithio i gyfeiriad Pwllheli. Mae'r tirlithriad ar y lôn ger Plas yn Rhiw wedi effeithio ar

200 llath o'r ffordd ac mae'r Cyngor Sir yn rhagweld y bydd y ffordd yn parhau ar gau am gyfnod hir.

Mae problemau wedi bod yma ers y 1960au ac mae gwaith wedi ei wneud i atgyfnerthu'r ffordd dros y blynyddoedd. Dywed y Cyngor y bydd yn rhaid gwneud asesiad manwl o'r sefyllfa cyn penderfynu sut i fynd ymlaen

'Ni fydd gwaith dros dro yn addas y tro yma,' meddai Syrffewr Cyngor Gwynedd, Bob Daimond. 'Mi fydd yn gostus iawn ond efallai y bydd yn bosibl cael grant gan y Cynulliad yn yr achos hwn.'

Yn y Rhifyn Hwn...

- Yn ol i Llyn o Rio • Nam Clust
- Y Fellten Felltith
- Porthladd Pwllheli

Gŵyl y Llanw

Dyddiadau'r Wyl eleni yw **Mawrth 30-31**. Os am gystadlu, cofiwch yrru eich enwau i un a ysgrifenyddion Y Llanw cyn diwedd y mis, ***

Cofiwch hefyd am **Gystadleuaeth y Tlws Sgrifennu** ar gyfer disgyblion ysgolion Botwnnog a Glan-y-Môr a chyn-ddisgyblion o'r ddwy ysgol sy'n fyfyrwyr yng Ngholeg Meirion-Dwyfor. Dyddiad cau - **Chwefror 28**

Cofio R.S.

Cynhelir noson arbennig yn Y Brifysgol, Bangor heno (Ionawr 17) i ddathlu bywyd a gwaith R.S. Thomas. Trefnwyr y noson yw'r Academi Gymreig, ac ymhlith y cyfranwyr bydd Twm Morys, Robin Llywelyn, Emyr Humphreys, Gwyn Thomas, John Davies, yr arlunydd Kyffin Williams a Jason Walford Davies, a fun gyfrifol am drefnu'r recordiad o waith y bardd ddwy flynedd yn ôl. Mae rhaglen y noson yn cynnwys recordiad o R.S. Thomas yn darllen ei waith yn ogystal â cherddi teyrnged iddo.

Mae'r noson yn dechrau am 7.30 o'r gloch yn Narlithfa'r Celfyddydau, Ffordd y Coleg, Bangor.

Eisteddfod 2005

Hanner canrif ar ôl ei hymweliad diwethaf i Phwllheli, bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ail ymweld a'r ardal - efallai.

Mae Clwb y Bont, Pwllheli, wedi ysgrifennu at Gyngor yr Eisteddfod i estyn gwahoddiad i'r Brifwyl i'r ardal yn 2005.

'Byddai denu'r Eisteddfod yma yn hwb mawr i'r ardal gyfan,' meddai'r Parch Meirion Lloyd Davies, aelod o Glwb y Bont. 'Fe fyddai'r economi yn sicr o elwa ac mi fyddai'n hwb mawr i'n bywyd diwylliannol ni. Pa bynnag ardal mae'r Eisteddfod yn ymweld â hi, mae'n gadael llawer ar ei hôl - yn gorau, cwmnïau drama ac ati,' meddai. 'Byddai hefyd yn fuddiol i'r Eisteddfod ymweld ag un o ardaloedd cymreiciaf Cymru. Yn barod rydyn ni wedi cael cefnogaeth Cyngor Tref Pwllheli ac mae'r Cyngor Sir wedi addo rhoi help ariannol os ydau'r Eisteddfod i'r sir.'

Mae tair ardal arall yn cystadlu am y brifwyl, sef

Swyddog Bro



Arwel Jones (llun: Tegwyn Roberts)

Mae Arwel Jones, Swyddog Bro newydd Pwllheli/Llyn, yn enedigol o bentref y Rhiw. Cafodd ei addysg yn Ysgolion Aberdaron a Botwnnog ac wedyn yn y Coleg Normal a'r brifysgol ym Mangor. Wedi cyfnod yn gweithio gyda'r cwmni teuluol treuliodd flwyddyn yn byw a theithio yn Awstralia. Ar ôl dychwelyd i Gymru bu'n gweithio fel Swyddog Bro i Gyngor Gwynedd yn Nyffryn Ogwen. Mae'n falch o'r cyfle i gael gweithio yn yr ardal y cafodd ei fagu ynddi, ac yn gobeithio y gall gydweithio'n llwyddiannus gyda grwpiau a chwmnïau cymunedol yn yr ardal.

Gallwch gysylltu ag Arwel yn Swyddfa Ardal Dwyfor, Ffordd y Cob, Pwllheli, ar

01758 704120 neu

arwel@gwynedd.gov.uk

Ymddiheuriad

Trwy gaingymeriad ymddangosodd rhai rhifau ffôn yn anghywir ar y Blwyddiadur.

Hoffem ymddiheuro'n ddiffuant am unrhyw anhwylostod a achosodd hyn i'n hysbysebwy

Caernarfon, Bangor Threffynnon yn Sir y Fflint. Mae'n debygol y bydd Cyngor yr Eisteddfod wedi dod i benderfyniad ar leoliad Prifwyl 2005 cyn diwedd yr haf, eleni.